

Datganiad Cyngor Sir y Fflint am ddata tai newydd a gwblhawyd yn flynyddol

Pwrpas y Datganiad

- 1.1. Paratowyd y datganiad byr hwn gan y Cyngor er mwyn ymateb i ddogfen M7.03A Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi sy'n cynnwys data am dai newydd a gwblhawyd yn flynyddol sy'n deillio o ystadegau Llywodraeth Cymru am adeiladu tai newydd.
- 1.2. Mae'r wybodaeth yn M7.03A yn cynnwys data am dai newydd a gwblhawyd yn flynyddol rhwng 2015 a 2019 ar gyfer Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru (yn cynnwys Sir y Fflint) a rhai o'r Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Fel y nodir yn Nhabl A isod, mae'r tai newydd a gwblhawyd yn flynyddol ar gyfer Sir y Fflint yn M7.03A yn wahanol i'r ffigurau a ddarparwyd gan y Cyngor yn BP10A (FCC002) ac mae'r datganiad hwn yn nodi'r rheswm am hynny.

Tabl A: Tai newydd a gwblhawyd yn flynyddol yn Sir y Fflint 2015-2019

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	Cyfanswm
Ffigurau Llywodraeth Cymru	554	619	416	423	2012
Ffigurau CSFf (gweler BP10A-Tabl 1A)	662	421	608	454	2145

Y rheswm am y gwahaniaeth

- 2.1 Y rheswm am y ffigurau gwahanol ydi ffynhonnell wahanol o ddata. Mae data'r Cyngor yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan archwilwyr safle a/neu a gasglwyd gan ddatblygwyr trwy ymarfer monitro blynyddol y Cyngor. Mae hyn yn gyson â dull Awdurdodau Lleol eraill a chafodd ei gydnabod yn TAN 1 sydd yn ei gwneud yn ofynnol bod monitro'r cyflenwad tir a data cwblhau ar gyfer tir tai yn seiliedig ar archwiliadau safle, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i ffurfio rhan o sylfaen y dystiolaeth ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2. Serch hynny mae data cwblhau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar wybodaeth am dai a gwblhawyd trwy ddefnyddio cofnodion Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a thai newydd sydd wedi'u cwblhau sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai. Yr anhawster gyda'r ffynhonnell data yma yw oedi posibl wrth i'r data cwblhau gael ei gofrestru trwy Reoli Adeiladu a Chyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai. Mewn rhai achosion, gall gymryd sawl mis ar ôl i annedd gael ei gwblhau cyn iddo gael ei gofrestru. Mae'r sefyllfa yn cael ei chymhlethu ymhellach gan hunan ardystiad ac arolygwyr preifat. Felly o ganlyniad i'r uchod, mae yna dangyfrif, ynghyd ag oedi yn nata cwblhau Llywodraeth Cymru.
- 2.3 Mae hyn yn cael ei gydnabod yn nata Llywodraeth Cymru sy'n nodi:

'Yng Nghymru, mae tai newydd yn cael eu hadeiladu gan y sector preifat, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yma yn seiliedig ar adroddiadau arolygwyr adeiladau awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol

*Adeiladu Tai. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth gan arolygwyr preifat. Mae peidio â chynnwys yr wybodaeth hon yn golygu bod **tangyfrif ar hyn o bryd** yn nifer yr anheddau a gwblhawyd er yr amcangyfrif bod y nifer yn weddol fach.'*

Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/New-House-Building/newdwellingscompleted-by-period-tenure>

2.4 Mae hyn i'w weld wrth gymharu'r ffigurau yn Nhabl A ar gyfer 4 blynedd rhwng 2015-19, gyda chyfanswm ffigurau'r Llywodraeth Cymru yn 2012 o dai a gwblhawyd, o'i gymharu â chyfanswm ffigurau'r Cyngor o 2145 o dai a gwblhawyd.